British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

DYFRFFYRDD I GYMRU

GWELL ANSAWDD BYWYD TRWY DDATBLYGU DYFRFFYRDD CYMRU YN GYNALIADWY

© Bartholomew Ltd 2000.
Reproduced by kind permission of HarperCollins Publishers.

CYNNWYS

Dyfrffyrdd i Gymru 2

1 Gwell ansawdd bywyd 3

1.1 Cyflwyniad 3

1.2 Pwrpas 3

1.3 Prif themâu 3

1.3.1 Adfywio economaidd 3

1.3.2 Adfer cefn gwlad 3

1.3.3 Byw'n gynaliadwy 4

1.3.4 Bywiogrwydd treftadaeth ddiwylliannol 4

1.3.5 Cymru i bedwar ban y byd 4

2 Perthnasedd i bolisi a chynlluniau yng Nghymru 5

2.1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru 5

2.1.1 Cynllun i Gymru a Dysgu Byw'n Wahanol 5

2.1.2 Cymru ar ei Hennill 5

2.1.3 Cynllun Datblygu Cefn Gwlad 5

2.1.4 Dyfodol Creadigol 5

2.2 Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad 5

2.2.1 Bwrdd Croeso Cymru 5

2.2.2 Awdurdod Datblygu Cymru 5

2.2.3 Cyngor Cefn Gwlad Cymru 5

2.2.4 Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 6

2.2.5 CADW 6

3 Prosiectau cenedlaethol strategol 7

3.1 Gorolwg 7

3.2 Cynllun hyrwyddo twristiaeth Dyfrffyrdd i Gymru 8

3.3 Gwefan Glannau Gwalia 9

3.4 Crynodebau prosiect 10

3.4.1 Camlas Trefaldwyn 10

3.4.2 Camlas Mynwy ac Aberhonddu 11

3.4.3 Camlas Abertawe, Castell-nedd a Tennant 12

4 Prosiectau rhanbarthol a lleol 13

4.1 Gorolwg 13

4.2 Crynodebau prosiect manwl 13

4.2.1 Adfywio cymunedol 13

4.2.2 Mynediad i bawb 16

4.2.3 Yr amgylchedd 19

4.2.4 Twristiaeth ddiwylliannol 20

4.2.5 Dysgu gydol oes 22

5. Cyllid 25

6. Y camau nesaf – ymgynghori 26

7. Atodiad 1 27

7.1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru 27

7.1.1 Cynllun i Gymru a Dysgu Byw'n Wahanol 27

7.1.2 Cymru ar ei Hennill 27

7.1.3 Cynllun Datblygu Cefn Gwlad 27

7.1.4 Dyfodol Creadigol 27

7.2 Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad 28

7.2.1 Bwrdd Croeso Cymru 28

7.2.2 Awdurdod Datblygu Cymru 28

7.2.3 Cyngor Cefn Gwlad Cymru 28

8. Atodiad 2 Crynodeb o'r Sefydliadau **29**

9. Atodiad 3: Amlinelliad o'r Trefnau Adfer **30**

10. Atodiad 4: Amcan Un, Map Ardaloedd y Rhaglen **31**

11. Atodiad 5: Amcan Dau, Map Ardaloedd y Rhaglen **32**

Cysylltiadau 33

Rhagair gan Brif Weithredwr Dyfrffyrdd Prydain
Robin Evans

Mae *Dyfrffyrdd i Gymru* yn dechrau'r broses ymgynghori a fydd yn dod â rheiny sydd â diddordeb ynghyd i ddatblygu cynllun 'gwnaed yng Nghymru' ar gyfer ein dyfrffyrdd. Bydd y cynllun hwnnw'n darparu fframwaith strategol ac yn nodi'r camau gweithredu angenrheidiol i gynorthwyo i wella ansawdd bywyd yng Nghymru drwy:

- Sbarduno adfywio economaidd
- Gweithredu fel sbardun i adfer cefn gwlad
- Datblygu ffordd gynaliadwy o fyw
- Hyrwyddo bywiogrwydd treftadaeth ddiwylliannol Cymru
- Hyrwyddo Cymru i bedwar ban y byd.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ac anogaeth Sue Essex AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd a awgrymodd i ni gyflawni'r dasg hon. Rydym hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth weithredol llawer o aelodau'r Cynulliad sydd wedi ein hannog, yn enwedig, Aelodau'r Grŵp Amlbleidiol ar Ddyfrffyrdd.

Mae gofalu am ddyfrffyrdd a dyfrfannau a'u datblygu yn cyffwrdd â chylch gorchwyl sawl asiantaeth yng Nghymru. Mae'r defnydd ohonynt a'r posibilrwydd o'u datblygu yn effeithio ar fuddiannau cymunedau gwahanol. Rhaid i ddatblygiadau fod yn sensitif i'w hanghenion ac i'r amgylchedd. Mae wedi bod yn amlwg i lawer ohonom na ellir gwireddu potensial dyfrffyrdd i fod o fudd oni bai fod pawb sydd â rhan i'w chwarae yn y gwaith yn cydweithio i wireddu gweledigaeth gyffredin.

Mae'r ymgynghoriad *Dyfrffyrdd i Gymru* yn rhoi cyfle i ddatblygu'r weledigaeth honno ac i roi dyfrffyrdd ar yr agenda genedlaethol. Rwyf wir yn annog y dylai pawb sy'n berchen ar ddyfrffyrdd Cymru, yn gofalu amdanynt neu sydd â diddordeb ynddynt, neu sydd ag unrhyw ddiddordeb yn natblygiad economi, diwylliant a chymunedau Cymru, gymryd rhan yn y broses ymgynghori hon.



Robin Evans
Prif Weithredwr
Dyfrffyrdd Prydain

1.1 Cyflwyniad

Yn lle bynnag y maent, mae camlesi ac afonydd mordwyol yn sbardun i esblygiad economaidd Cymru. Maent yn rhan annatod o lwyddiant Cymru'r gorffennol a Chymru'r dyfodol hefyd ac maent wrth wraidd treftadaeth ddiwylliannol Cymru. Yn ogystal, mae gan Gymru asedau sylweddol diolch i'w glannau helaeth, porthladdoedd, harbwrs a marinâu, ei llynnoedd naturiol a rhai a grëwyd gan ddyn.

Mae ein dyfrffyrdd a'n dyfrfannau (cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'dyfrffyrdd' o hyn ymlaen) yn noddfa i fywyd gwyllt, yn nodwedd amlwg o'n tirwedd, yn rhan o'n hetifeddiaeth ddiwydiannol ac yn gaffaeliad twristiaeth sy'n bwysig i ni yn genedlaethol. Maent yn berthnasol heddiw i gymunedau lleol fel adnodd ar gyfer hamdden, addysg ac iechyd.

Gall dyfrffyrdd gynorthwyo i wella ansawdd bywyd yng Nghymru. Maent yn ganolbwynt i weithgarwch. Maent yn cysylltu asedau eraill ac yn creu cyfleoedd ledled Cymru.

Gall dyfrffyrdd gynorthwyo i wella ansawdd bywyd yng Nghymru mewn sawl ffordd. Lle mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, gall dyfrffyrdd wneud cyfraniad sylweddol yn y meysydd canlynol sy'n berthnasol i Gymru:

- Adfywio economaidd
- Adfer cefn gwlad
- Byw'n gynaliadwy
- Bywiogrwydd treftadaeth ddiwylliannol Cymru
- Cymru yn y byd ehangach.

I wireddu manteision llawn y cynllun, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, cyrff cyhoeddus eraill megis Awdurdodau Lleol a Dyfrffyrdd Prydain a'r sectorau preifat a gwirfoddol yn gweithio mewn partneriaeth.

1.2 Pwrpas

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Ddyfrffyrdd Prydain ar awgrym Gweinidog Cynulliad Cymru dros yr Amgylchedd. Sue Essex AC.

Mae *Dyfrffyrdd i Gymru* yn nodi dull strategol o adfywio dyfrffyrdd Cymru gyda'r nod o gyfrannu at y gwaith o wella ansawdd bywyd.

Pwrpas *Dyfrffyrdd i Gymru* yw gwahodd safbwyntiau ar y dull strategol hwn ac, yn arbennig, ar y cwestiynau ymgynghori a nodir yn Adran 6. Y cam nesaf fydd defnyddio'r cyfraniadau hyn i ddatblygu cynllun 'Gwnaed yng Nghymru' ar gyfer y dyfrffyrdd, sydd â chefnogaeth eang yn y sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol.

1.3 Prif themâu

1.3.1 Adfywio economaidd

Ein dyfrffyrdd oedd prif wythiennau diwydiannu a'r llwybr i fasnach a llewyrch yn y 19eg ganrif. Mae gallu dyfrffyrdd i fod yn sbardun ac yn ganolbwynt i adfywio a chreu cyfoeth a swyddi hirdymor wedi ei brofi ledled Prydain ac yn rhyngwladol. Adfywio economaidd wedi ei ganolbwyntio ar ddyfrffyrdd yw'r hwb i newid sylfaenol a pharhaol – gan agor y drws i lawer o'r prosiectau eraill sy'n esgor ar welliannau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Gall dyfrffyrdd gynorthwyo adfywiad economaidd drwy gyfrwng cynlluniau strategol i adfer, adnewyddu a datblygu ein camlesi a'n dyfrfannau eraill. Mae hyn yn creu swyddi a lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt – gan ddenu pobl a busnes. Gellir ychwanegu at weithgarwch economaidd o amgylch ein dociau a'n dyfrfannau eraill trwy reoli dyfrfannau yn fedrus fel eu bod yn llefydd bywiog ac yn ddeniadol i waith a hamdden.

1.3.2 Adfer cefn gwlad

Mae ein camlesi a'n hafonydd yn cysylltu cymunedau trefol a gwledig. Mae'r ddyfrffordd yn rhan o orffennol cymuned wledig ac wedi gwasanaethu diwydiant ac amaethyddiaeth. Mae bellach yn ganolbwynt i hamdden a thwristiaeth yn y byd sydd ohoni.

Gall dyfrffyrdd gyfrannu at adfywio cefn gwlad trwy fod yn ganolbwynt i weithgarwch economaidd a hynny trwy adfywio, datblygu a thwristiaeth. Gallant gyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy:

- hwyluso'r defnydd newydd o hen adeiladau amaethyddol a chamlesi
- mentrau rheoli tir
- cyfleusterau twristiaeth newydd a'u hyrwyddo
- darparu cyfleoedd hyfforddi newydd ar gyfer gwaith
- darparu swyddi hirdymor
- bod yn gronfa i gynorthwyo gyda'r gwaith o sicrhau bod sgiliau gwledig allweddol megis plygu gwrychoedd yn parhau.

1.3.3 Byw'n gynaliadwy

Ni ddylai'n gweithgareddau niweidio dyfodol ein plant na dyfodol y lleoedd lle maent yn byw ac yn gweithio. Mae dyfrffyrdd yn gyfoeth o fioamrywiaeth a hanes. Maent yn lleoedd i ymweld â nhw, ymlacio, hamddena, gwella eich iechyd meddwl a chorfforol, dysgu a chwarae. Maent nid yn unig yn creu lleoedd gwell i fyw ynddynt ond maent hefyd yn creu amgylchedd mwy deniadol i waith a busnes.

Gallwn gynorthwyo pobl i fyw'n fwy cynaliadwy trwy ddefnyddio dyfrffyrdd i wella mynediad i bawb i gefn gwlad neu lecynnau agored gwyrdd mewn dinasoedd, waeth beth yw eu hoed neu'u gallu. Mae gan ein dyfrffyrdd ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gynyddu a gwella bioamrywiaeth. Maent hefyd yn fannau lle gellir cerdded a beicio heb fod cerbydau ac mae ganddynt gysylltiadau da â dulliau eraill o deithio.

1.3.4 Bywiogrwydd treftadaeth ddiwylliannol

Mae dyfrffyrdd yn rhan annatod o lwyddiant Cymru'r gorffennol a Chymru'r dyfodol. Maent yn rhan o'i thirwedd, a'i hanes cymdeithasol, diwydiannol ac amaethyddol. Mae dyfrffyrdd yn cysylltu ag ardaloedd ehangach a'r cymunedau sydd o'u cwmpas. Mae dyfrffyrdd yr un mor berthnasol i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru yn y byd sydd ohoni ag yr oeddynt yn y gorffennol.

Mae ein dyfrffyrdd yn cynnwys rhai o nodweddion amlycaf Cymru megis Pontydd Dŵr Pontcysyllte a'r Waun ac maent yn gysylltiedig â Safle Treftadaeth y Byd ym Mlaenafon. Mae'r asedau hyn gyda'r gorau yn y byd.

Gall ein dyfrffyrdd ddarparu canolbwynt i bobl yng Nghymru a thu hwnt i ddysgu a gwerthfawrogi mwy am fywiogrwydd diwylliannol Cymru.

Mae sicrhau dyfodol ein henebion a'u dehongli mewn cyd-destun yn ein cynorthwyo ni ac ymwelwyr â Chymru i ddeall eu harwyddocâd a magu gwerthfawrogiad gwell o'n hanes. Mae defnyddio'r dyfrffyrdd fel adnodd addysg yn dechrau cylch da o ymwybyddiaeth a gofal yn y dyfodol.

1.3.5 Cymru i Bedwar Ban y Byd

Mae ein dyfrffyrdd yn asedau o ansawdd rhyngwladol. Gallant gynorthwyo i godi proffil Cymru ym mhedwar ban byd trwy roi enw da i ni a denu twristiaid o bob cwr o'r byd. Mae ganddynt y potensial i gynrychioli'r gorau o asedau twristiaeth ddiwylliannol a gwyrdd Cymru a gallent gynhyrchu incwm drwy gydol y flwyddyn.

Mae angen gwaith ac adnoddau sylweddol i adnewyddu dyfrffyrdd Cymru. Fodd bynnag, mae'r prosiectau arfaethedig yn fodelau o ddatblygiad cynaliadwy sydd wedi dangos y potensial i ddenu cyllid rhyngwladol pan y'u defnyddiwyd mewn ardaloedd eraill. Mae *Dyfrffyrdd i Gymru* yn cynnig gweledigaeth y gallai Cymru fod yn esiampl i eraill, trwy ddangos yr hyn sy'n bosib gyda dychymyg, partneriaeth a gwaith caled.

Nid yw'r dyfrffyrdd yng Nghymru yn annibynnol ar bolisi. Rhaid eu datblygu i ymateb i anghenion Cymru fel a nodir yn y prif themâu yn Adran 1.3. Nod y prosiectau model yn y ddogfen hon yw cynorthwyo i wireddu'r *Cynllun i Gymru* a strategaethau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Mae'r adran hon yn rhestru rhai o'r polisïau a chynlluniau pwysig sy'n berthnasol i'r dyfrffyrdd adeg ysgrifennu'r ddogfen hon. Nid yw'n gynhwysfawr ac fe anogir y sawl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn i ddisgrifio polisïau a chynlluniau perthnasol eraill yn eu hymatebion.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys disgrifiad o'r darpariaethau manylach ac mae'n croesgyfeirio at brosiectau sy'n ymwneud â dyfrffyrdd a allai gynorthwyo i wireddu'r amcanion polisi neu gamau gweithredu y cynlluniau.

2.1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2.1.1 Cynllun i Gymru a Dysgu Byw'n Wahanol

Mae *Dyfrffyrdd i Gymru* yn gweithredu'r egwyddorion a geir yn y ddau gyhoeddiad hwn sef:

- Datblygu cynaliadwy – gweithredu yn awr er mwyn y dyfodol
- Cynhwysiad cymdeithasol – mynd i'r afael â thlodi
- Cyfle cyfartal – sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.

2.1.2 Cymru ar ei Hennill

Bydd *Dyfrffyrdd i Gymru* yn cynorthwyo yn y gwaith o gyflawni targedau'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol - *Cymru ar ei Hennill*. Bydd y prosiectau strategol, yn arbennig, yn cynorthwyo i roi hwb i'r ardaloedd o'u hamgylch i greu swyddi i bobl a lleihau lefelau segurdod economaidd. Bydd prosiectau gwledig yn cynorthwyo i ddatblygu'r economi gwyrdd ac yn dod â thwf a chyfle i gymunedau llai.

2.1.3 Cynllun Datblygu Cefn Gwlad

Fel a nodir uchod, mae ein dyfrffyrdd yn cysylltu ardaloedd trefol a gwledig Cymru. Camlas wledig yw Camlas Trefaldwyn; mae camlesi eraill yn cysylltu ardaloedd trefol a gwledig. Mae dyfrffyrdd mewn sefyllfa dda i chwarae rhan yn natblygiad cynaliadwy ardaloedd gwledig. Yn arbennig, gallant gynorthwyo i ddiwallu rhai o flaenoriaethau allweddol y Cynllun Datblygu Cefn Gwlad.

2.1.4 Dyfodol Creadigol

Yn briodol ddigon, ceir llun o Gamlas Llangollen yn adran *Diwylliant a'r economi* y ddogfen *Dyfodol Creadigol*. Mae dyfrffyrdd Cymru yn gaffaeliad diwylliannol pwysig ac mae Camlas Llangollen yn llifo ger safle *Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen*. Gellir eu defnyddio hefyd i greu mantais economaidd i gynorthwyo i'w cynnal. Mae'r Strategaeth Ddiwylliannol yn nodi bod angen i Gymru ennyn gwerth diwylliannol o amrywiaeth eang o wariant cyhoeddus a phreifat. Gall dyfrffyrdd gynorthwyo i gyflawni amcanion y strategaeth.

2.2 Cyrff a Noddir gan y Cynulliad

2.2.1 Bwrdd Croeso Cymru

Nid oes amheuaeth fod ein dyfrffyrdd eisoes yn gaffaeliad o ran twristiaeth. Fodd bynnag, gellir gwella eu cyfraniad trwy ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod i dwristiaid, dod o hyd i gyfleoedd newydd i ryngweithio rhwng mentrau datblygu gwledig, dyfrffyrdd a thwristiaeth a thrwy farchnata'r sector a'i gynhyrchion twristiaeth yn strategol.

Fel caffaeliad diwylliannol, mae gan ddyfrffyrdd y gallu i gyfrannu at gyflawni nodau Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru.

2.2.2 Awdurdod Datblygu Cymru

Mae'r ddadl o blaid dyfrffyrdd fel cyfryngau adfywio economaidd yn hysbys ac yn un dda. Gall dyfrffyrdd gyfrannu at strategaeth datblygu cynaliadwy a thargedau cynllun corfforaethol y WDA.

2.2.3 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mae gan ddyfrffyrdd rôl allweddol wrth gynorthwyo Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'i bartneriaid (megis Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) i sicrhau amgylchedd gwell yng Nghymru, gyda gwell ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad ohono a mwy o ymwelwyr. Yn arbennig, gall y prosiectau gyfrannu at gyflawni'r amcanion strategol a nodir yn *Gwell Cymru – Amgylchedd Naturiol Cymru yn 2010*.

2.2.4 Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae gan ddyfrffyrdd rôl allweddol wrth gynorthwyo Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i sicrhau amgylchedd gwell i Gymru. Mae ganddynt gyfraniadau penodol i'w gwneud wrth gynorthwyo'r Asiantaeth yn y meysydd canlynol:

- Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy
- Ansawdd dŵr a chadwraeth
- Rheoli llifogydd dalgylch
- Hyrwyddo hamdden
- Strategaeth rheoli dŵr

2.2.5 CADW

Mae'n naturiol bod y dyfrffyrdd fu wrth wraidd y chwyldro diwydiannol yn gysylltiedig ag adeiladau o ddiddordeb hanesyddol. Mae Dyfrffyrdd Prydain ei hun yn rheoli 169 o henebion ac adeiladau rhestredig yng Nghymru. Gall agwedd ragweithiol at ddyfrffyrdd Cymru sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r adeiladau hyn a sicrhau y gall pobl Cymru a thwristiaid gael mynediad iddynt a'u gwerthfawrogi. Yn ogystal, gellir cael manteision i dwristiaeth a'r economi ill dau trwy gysylltu'r adeiladau hyn a safleoedd sydd dan ofal cyrff eraill.

3.1 Gorolwg

Mae'r prosiectau cenedlaethol strategol yn hanfodol i drawsnewid dyfrffyrdd Cymru yn effeithiol. Mae'r prosiectau strategol yn darparu más critigol ac yn gwneud y mwyaf o effeithiau lluosog cynlluniau lleol a rhanbarthol unigol.

Mae angen y gweithgarwch twristiaeth yn Adran 3.2 i wneud yn fawr o gyfraniad adnoddau sy'n bodoli'n barod a manteisio ar lwyddiant y prosiectau strategol a lleol i sicrhau bod buddiannau twristiaeth yn cael eu gwireddu'n llawn.

Bydd y prosiect gwefan yn Adran 3.3 yn cefnogi twristiaeth. Bydd hefyd yn adnodd addysg, hamdden a diwylliannol pwysig. Bydd defnydd o'r wefan yn darparu ysgogiad hirdymor i ofalu am ddyfrffyrdd, eu gwerthfawrogi a sicrhau eu gofal a'u cadwraeth yn y dyfodol. Mae'r posibilrwydd o fuddiannau newydd sylweddol wedi cynyddu yn sgil buddsoddiad mawr gan Fwrdd Croeso Cymru a Dyfrffyrdd Prydain mewn mentrau gwybodaeth ac e-fasnach.

Hanfod y prosiectau cyfalaf mwyaf yw adfywio trwy adfer ac adnewyddu. Maent yn golygu cryn dipyn o weithio mewn partneriaeth a bydd angen portffolio helaeth o gyllid i'w gwireddu.

Mae'r prosiectau a ddisgrifir wedi eu dewis o brofiad Dyfrffyrdd Prydain yn y maes. Mae croeso i chi awgrymu syniadau ychwanegol neu wahanol am brosiectau fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn enwedig, byddai syniadau am brosiectau gan bobl sydd â diddordeb mewn dyfrffyrdd a dyfrfannau eraill yn sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn berthnasol i bob rhan o Gymru.

3.2 Cynllun hyrwyddo twristiaeth Dyfrffyrdd i Gymru

Disgrifiad o'r prosiect

Hyrwyddo dyfrffyrdd a dyfrfannau dŵr Cymru fel hanfod. Eu hyrwyddo i bobl yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae dyfrffyrdd a dyfrfannau Cymru yn ddeniadol i dwristiaid mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft yn y meysydd canlynol:

- Twristiaeth Ddiwylliannol a Threftadaeth
  - Diwydiannol
  - Cymdeithasol
  - Gwaith a bywoliaeth
  - Henebion
  - Safleoedd Treftadaeth y Byd
  - Llwybrau pellter hir
- Gwyrdd/amgylcheddol
  - Bywyd gwyllt
  - Gwylio adar
  - Planhigion prin
- Twristiaeth weithgareddau
  - Hwylio/mynd mewn cwch/canŵio
  - Cerdded
  - Pysgota
  - Beicio
  - Gweithgareddau sy'n gysylltiedig (e.e. merlota)
- Adnewyddu – y ffordd gyflymaf o arafu

Canlyniadau'r prosiect

- Partneriaeth gydgysylltiedig i greu strategaeth ar gyfer datblygu a gwella dyfrffyrdd a chynhyrchion a gwasanaethau twristiaeth-gysylltiedig
- Cyfathrebu marchnata strategol a chydgysylltiedig i gynyddu ymwybyddiaeth ymwelwyr, eu niferoedd a gwariant yng Nghymru

Bydd union gwmpas a thargedau'r ymgyrch yn cael eu datblygu gan y partneriaid wrth ymgynghori.

Partneriaid posib y prosiect

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bwrdd Croeso Cymru
Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol
Awdurdod Datblygu Cymru
Awdurdodau Lleol
Gweithredwyr Twristiaeth y Sector Preifat
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

I'w benderfynu

3.3 Gwefan Dyfrffyrdd i Gymru



Disgrifiad o'r prosiect

Llunio gwefan Gymraeg a Saesneg i:

- hyrwyddo dyfrffyrdd a dyfrfannau Cymru
- rhoi mynediad deallusol i hamddena a dysgu am ddyfrffyrdd
- gweithredu fel adnodd fel y gall cymunedau lleol hyrwyddo eu hunain
- creu modd i ymateb i ymholiadau yn sgil marchnata twristiaeth dyfrffyrdd
- annog cysylltiadau clós â dysgu gydol oes ac adfywio cymunedol

Bydd y prosiect yn cael ei atgyfnerthu gan weithgarwch e-fasnach cyfredol a gweithgarwch cyfryngau newydd y partneriaid, er enghraifft porth defnyddwyr newydd arfaethedig Dyfrffyrdd Prydain (Waterscape) a System Rheoli Cyrchfannau (DMS) Bwrdd Croeso Cymru.

Canlyniadau'r prosiect

- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth genedlaethol a rhyngwladol o'n dyfrffyrdd a'n dyfrfannau
- Mwy o ymwelwyr
- Adnodd ar gyfer addysg a dysgu gydol oes
- Mwy o berchnogaeth gan gymunedau ar ddyfrffyrdd Cymru
- Cyfle i godi arian trwy roddion a hysbysebu
- Cyfleoedd ar gyfer e-fasnach twristiaeth

Partneriaid posib y prosiect

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bwrdd Croeso Cymru
Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol
Awdurdod Datblygu Cymru
Awdurdodau Lleol
Gweithredwyr twristiaeth y sector preifat
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

£250,000

3.4 Crynodebau prosiect



3.4.1 Camlas Trefaldwyn

Cefndir y prosiect

- Amcangyfrifir bod cost gwaith adfer y gamlas yn llawn o Lociau Frankton, Swydd Amwythig i Loc Freestone ger Y Drenewydd, Powys yn £60 miliwn
- Mae Cam I (£35m) yn adfer y gallu i fordwyo hyd at Refail, i'r gogledd o ben gwreiddiol y daith yn y Drenewydd, Powys
- Mae Cam 2 (£25m) yn cwblhau'r gwaith o adfer y gamlas yn llawn i Loc Freestone gyda'r potensial o ehangu i'r Drenewydd ei hun
- Mae Strategaeth Rheoli Cadwraeth ar gyfer adfer y gamlas yn gynaliadwy yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chwblhau yn 2003
- Mae partneriaethau ag Awdurdodau Lleol, sefydliadau amgylcheddol a'r sector gwirfoddol eisoes ar waith
- Mae partneriaethau pellach â chymunedau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb yn cael eu datblygu

Canlyniadau'r prosiect

- Bydd y gwaith adfer o fudd i'r coridor ehangach yn y ffyrdd canlynol: adfywio economaidd, yr amgylchedd, addysg, hamdden a thwristiaeth, trafnidiaeth, marchnata, treftadaeth, diwylliant
- Canlyniadau economaidd adfer yn llawn:
  - 1 miliwn o ddyddiau ymwelwyr ychwanegol
  - Ymwelwyr ychwanegol yn gwario £2.5 filiwn y flwyddyn
  - Creu dros 100 o swyddi

Partneriaid – 'Partneriaeth Camlas Trefaldwyn'

Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Amwythig
Cyngor Bwrdeistref Croesoswallt
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Amwythig
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
English Nature
English Heritage
Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffordd Trefaldwyn
Shropshire Union Canal Society
Dyfrffyrdd Prydain
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol

Cyllid angenrheidiol

Chwilio am gyllid o fathau gwahanol o'r ffynonellau canlynol: Ewrop, Awdurdodau Lleol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru, Cronfa Cyfleoedd Newydd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Yr Ymddiriedolaeth Ddyfrffyrdd, cyllidwyr eraill yn Lloegr a phartneriaid o'r sector gwirfoddol.

3.4.2 Camlas Mynwy ac Aberhonddu



Disgrifiad o'r prosiect

- Adfer y gallu i fordwyo ar y gamlas o Aberhonddu i Gasnewydd
- Datblygu marina fawr yn Crindai, Casnewydd
- Gwneud sianel newydd a loc môr i'r Afon Wysg
- Diogelu dyfodol Cangen Crymlyn
- Dehongli treftadaeth ac amgylchedd y gamlas
- Hyrwyddo cysylltiadau gyda'r Safle Treftadaeth y Byd cysylltiedig ym Mlaenafon
- Costau datblygu yn £37 miliwn dros 5 mlynedd

Canlyniadau'r prosiect

- Creu dros 150 o swyddi parhaol newydd, diogelu 100 o swyddi
- Creu 29 o swyddi adeiladu a 72 o leoliadau hyfforddi
- Gwariant ymwelwyr gros o dros £3 miliwn bob blwyddyn
- Denu buddsoddiad sector preifat o £12 miliwn, gan greu 18 busnes newydd
- Ehangu mynediad corfforol a deallusol i'r adnodd i bob grŵp cymdeithasol
- Diogelu amgylchedd rhyngwladol pwysig ac ased treftadaeth

Partneriaid

Cynghorau Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys a Thor-faen

Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni

Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid

Ceisio cael portffolio gan bartneriaid a:

Chronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop (ERDF)

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

3.4.3 Camlas Abertawe, Castell-nedd a Tennant



Disgrifiad o'r prosiect

Bydd y prosiect hwn yn adfer y gallu i fordwyo ar y camlesi rhwng Llansawel, Castell-nedd, Glyn-nedd, Abertawe ac Ystalyfera gan greu dyfrffordd o tua 35 milltir o hyd. Bydd yr hyd hwn yn galluogi pobl i gymryd wythnos o wyliau hamddenol neu wyliau byr egnïol.

Mae WS Atkins wedi cwblhau astudiaeth ddichonolrwydd. Maent wedi argymell datblygu prosiect sy'n cyfuno lliniaru llifogydd ac adfer Pont Ddŵr deg bwa Aberdulais, lle gallai gwaith amddiffyn a gwell diogelwch rhag llifogydd fynd law yn llaw â sefydlogi ac adfer y strwythur a'r loc cyfagos. Dyma'r unig rwystr strwythurol sylweddol i ailagor tua deg milltir o gamlas yng Nghwm Nedd.

Mae costau tebygol y cynllun hwn tua £55 miliwn. Mae'r costau hyn yn ansicr ar hyn o bryd ac mae'r cynllun yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau ac yn caniatáu costau annisgwyl. Pe byddai datblygiadau cyfagos parhaus yn cwmpasu'r dyfrffyrdd, gellid lleihau costau'n sylweddol a byddai modd dod o hyd i gyllid fel rhan o'r datblygiadau hyn.

Canlyniadau'r prosiect

- Gellid gwario 30-50% o'r costau adeiladu yn yr economi lleol
- Amcangyfrifir cynnydd o £4-5 miliwn mewn gwariant gan ymwelwyr bob blwyddyn
- 10-20% o gynnydd yng ngwerth datblygu tir yng nghoridor y gamlas
- Manteision cymunedol a hyfforddiant o ddefnyddio gweithwyr dan hyfforddiant a gwirfoddolwyr
- Ailagor rhan bwysig o ddatblygiad diwydiannol Cymru

Partneriaid posib y prosiect

Dyfrffyrdd Prydain
Cyngor Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot
Awdurdod Datblygu Cymru
Cymdeithasau camlesi lleol
Cwmnïau Mordwyo Camlas Castell-nedd, Tennant

Cyllid angenrheidiol

Wedi codi arian ar gyfer astudiaeth ddichonolrwydd. Portffolio o gyllid ar gyfer adfer i'w ddatblygu.

4.1 Gorolwg

Bydd y prosiectau model hyn yn helpu i wireddu llawer o fanteision posib y prosiectau strategol – yn arbennig mewn meysydd cymdeithasol ac amgylcheddol. Maent hefyd yn cyfrannu at elfennau strategaethau datblygu cynaliadwy rhanbarthol a lleol. Maent yn cael effaith yn y meysydd canlynol:

- Adfywio Cymunedol
- Mynediad i Bawb
- Gwelliant Amgylcheddol
- Twristiaeth Ddiwylliannol
- Dysgu Gydol Oes

Isod, ceir prosiectau sydd wedi eu cwblhau neu sydd ar waith, ac eraill sydd wedi eu cynllunio sy'n aros am gyllid neu sy'n egin-syniadau.

Mae'r prosiectau a ddisgrifir wedi eu dewis o brofiad Dyfrffyrdd Prydain yn y maes. Mae croeso i chi awgrymu syniadau ychwanegol neu wahanol am brosiectau fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn arbennig, byddai syniadau ar gyfer prosiectau gan bobl sydd â diddordeb mewn dyfrffyrdd a dyfrfannau eraill yn sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn berthnasol i bob rhan o Gymru.

4.2 Cynodebau prosiect manwl

4.2.1 Adfywio Cymunedol

Basn angori Llangollen



Disgrifiad o'r prosiect

Bydd y prosiect yn creu basn angori o'r neilltu gyda chyfleusterau cysylltiedig ar gyfer hyd at 32 o gychod. Bydd hyn yn dyblu faint o gychod sy'n gallu angori yn Llangollen.

Canlyniadau'r prosiect

- 2,900 o ddyddiau cychod ychwanegol yn Llangollen
- 42,500 o ymwelwyr dydd ychwanegol
- 10,000 o ymweliadau gwyliau ychwanegol
- Ymwelwyr yn gwario £200,000 yn fwy bob blwyddyn
- 27 o swyddi adeiladu parhaol

Partneriaid cyllido posib

Awdurdod Datblygu Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
Bwrdd Croeso Cymru
ERDF Amcan 1
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

£1.6 miliwn

Pentref Arloesedd Porth Tawe Abertawe



Disgrifiad o'r prosiect

Mae Pentref Arloesedd Porth Tawe yn elfen allweddol o gyfnod nesaf y broses o ddatblygu'r ddinas a sefydlu hunaniaeth Abertawe fel 'Dinas Glan Dŵr' o bwys. Bydd strategaeth dyfrfan yn rhoi gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol y corff dŵr hwn, o fewn fframwaith y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol.

Canlyniadau'r prosiect

- Nodi cymysgedd cytbwys o ddefnyddiau ategol, yn seiliedig ar brofiad masnachol a hamdden Dyfrffyrdd Prydain a phartneriaid mewn lleoliadau tebyg yn y DU a thramor
- Profi'r dewisiadau o ystyried cyfyngiadau ffisegol y dyfrfan (rheiny sy'n bod nawr, neu allai fod) ac ystyried y berthynas â'r gamlas, yr afon a'r dyfroedd arfordirol
- Cynnig sylfaenol a ddaw â bywyd ac egni i'r dŵr a'r llefydd cyhoeddus oddi amgylch ac sy'n ddigon hyblyg i gynnwys newidiadau yn y prif gynllun cyffredinol
- Hyrwyddo arwyddocâd rhanbarthol a chenedlaethol y cyn ddociau, basnau, ardaloedd morwrol, yr Amgueddfa Forol Genedlaethol newydd a safleoedd eraill o bwysigrwydd diwydiannol, diwylliannol a hanesyddol

Partneriaid posib y prosiect

Awdurdod Datblygu Cymru
Dyfrffyrdd Prydain
Awdurdodau Lleol
Y Sector Preifat
Y Gymuned Leol
Bwrdd Croeso Cymru

Cyllid angenrheidiol

I'w asesu

Glanfa Goetre

Disgrifiad o'r prosiect

Mae Glanfa Goetre yn safle strategol sy'n cael ei ddatblygu fel pwynt canolog ar gyfer datblygiad hamdden, mwynhad a busnes ar y gamlas.

Canlyniadau'r prosiect

- Treftadaeth ac amgylchedd dyfrffyrdd wedi'u gwarchod trwy gynllunio sensitif, boed gyfleusterau swyddogaethol newydd neu rai sydd yno'n barod
- Canolfan fasnachol newydd ar gyfer y cyfleuster hurio a gwasanaethu cychod sydd yno'n barod
- Gwella mynediad i gwsmeriaid ac ymwelwyr yn enwedig y rhai ag anghenion arbennig
- Gwella cyfleusterau ar gyfer amgueddfa dreftadaeth ddiwydiannol, ymweliadau addysgol a chyfarfodydd
- Canolfan arlwyo ac adwerthu newydd ar gyfer cynnyrch o Gymru
- Hyrwyddo gweithgareddau i ymwelwyr o bob oed
- Canolfan Groeso i ymwelwyr

Partneriaid

Awdurdodau Lleol
Bwrdd Croeso Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Asiantaethau Cyllido Ewropeaidd
Dyfrffyrdd Prydain
Buddsoddiad Preifat
Cymorth gan Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni
Cymdeithas Perchnogion Cychod Goetre

Cyllid a sicrhawyd

£800,000

Pont Ddŵr Cwmbran



Disgrifiad o'r prosiect

Cyfyngiad mawr yn y cynllun i gwblhau'r gwaith o adfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu erbyn 2009 yw'r cyllid sydd ei angen i adeiladu pont ddŵr newydd dros Green Meadow Way, a dorrodd ar draws llwybr y gamlas ym 1960 fel rhan o'r system brif-ffyrdd newydd ar gyfer datblygu'r dref newydd.

Canlyniadau'r prosiect

- Datblygu potensial llwybrau dyfrffyrdd mewndirol i'r eithaf fel sbardun ar gyfer adfywio trefol a gwledig
- Darparu cysylltiadau traws-genedlaethol a rhanbarthol rhwng trefi ar hyd y gamlas a system gamlas Lloegr, lwerddon a'r cyfandir
- Strwythur cyfoes wedi ei gynllunio'n bwrpasol yn gysylltiedig â chynllun canol tref o ansawdd uchel a fydd yn helpu pobl leol i wella ansawdd eu bywyd, yn helpu diwydiannau adwerthu, gwestai, a gwasanaeth lleol i ffynnu a denu ymwelwyr
- Gall dyfrffyrdd gyfrannu at adfywio yn seiliedig ar eiddo, twristiaeth, a manteision lleol sy'n deillio o wella'r amgylchedd a threftadaeth

Partneriaid posib y prosiect

Awdurdod Lleol
Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni
Dyfrffyrdd Prydain
Chwilio am bartneriaid cyllido eraill

Cyllid angenrheidiol

Tua £3 miliwn

Datblygiad Crindai



Disgrifiad o'r prosiect

Gellir defnyddio dyfrffyrdd i greu amgylcheddau newydd o hen ardaloedd trefol sydd wedi dirywio. Mae hwn yn ddatblygiad cyfoes a gynlluniwyd yn bwrpasol ac yn amgylchedd o ansawdd uchel. Mae'n cynnwys marina a datblygiad aml-ddefnydd cysylltiedig. Mae'n darparu cyswllt dyfrffordd newydd i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Canlyniadau'r prosiect

- Helpu pobl leol i wella ansawdd eu bywydau
- Datblygu dyfrffordd werdd newydd a fydd yn sicrhau bod yr amgylchedd newydd yn diwallu anghenion cymunedau lleol ac yn creu coridor bywyd gwyllt gan uno ardaloedd trefol a gwledig
- Darparu diwydiannau adwerthu, gwestai a gwasanaeth lleol sy'n ddeniadol i ymwelwyr
- Cwblhau coridor mordwyol i Aberhonddu a darparu cysylltiadau traws-genedlaethol, rhanbarthol rhwng Casnewydd â system gamlas Lloegr, lwerddon a'r cyfandir
- Gall adnodd dŵr wedi'i gynllunio'n dda liniaru llifogydd trefol yng ngorlifdir Crindai
- Gwella ansawdd y dŵr a'r cynefin i fywyd dyfrol

Partneriaid posib y prosiect

Awdurdodau Lleol
Bwrdd Croeso Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Asiantaethau Cyllido Ewropeaidd
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Datblygwyr Preifat
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

£4 miliwn

Cymuned De Pont-y-pŵl



Disgrifiad o'r prosiect

Bydd datblygu rhan ddeniadol ond dawel o'r gamlas ym Masn Pont-y-moel, wedi'i rheoli'n dda, yn creu'r potensial i wella gwerthfawrogiad ymwelwyr o werth y dyfrffyrdd, trwy greu canolfan weithgareddau sy'n darparu llety ac yn cynnig canŵio, beicio, cerdded, a cherdded mynyddoedd. Bydd gwireddu'r manteision hyn o fudd i grwpiau lleol a eithriwyd, y gymuned ehangach ac ymwelwyr â'r ardal.

Canlyniadau'r prosiect

- Canolfan ranbarthol ar gyfer canŵio a gweithgareddau eraill yn cynnwys Cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Iechyd gwell trwy gyfleoedd i gerdded a hamddena egnïol, i ddatblygu ffordd o fyw iach
- Llety hunangynhwysol yn cynnwys caban y gellir ei fforddio gyda chyfleusterau ategol deniadol i'r holl ymwelwyr
- Ystafell ddosbarth, stiwdio, ystafell gemau a chyfrifiaduron, lle diogel i gadw beiciau/canŵs, storfa offer a siop cyfarpar
- Mwy o hyder a dealltwriaeth, gan alluogi ymwelwyr ag anghenion arbennig i gymryd rhan mewn gweithgareddau prif-ffrwd gyda'r hyder y bydd y cyfleusterau yn diwallu eu hanghenion
- Ymwybyddiaeth gymdeithasol gynyddol o gyfleusterau eraill ar hyd coridor y ddyfrffordd trwy fenter Porth Parciau Cenedlaethol Ewrop

Partneriaid

Awdurdodau Lleol
Bwrdd Croeso Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Datblygwyr Preifat
Dyfrffyrdd Prydain
Awdurdod Datblygu Cymru

Cyllid angenrheidiol

Cyfanswm £760k (Ardal Amcan 1 - 75% o gyllid cefnogi)

4.2.2 Mynediad i bawb Lociau'r Trallwng i Belan



Disgrifiad o'r prosiect

Gwella llwybr halio yr ardal hon sydd tua 2km o hyd i ddarparu gwell mynediad ac annog mwy o ddefnydd o'r llwybr halio. Gellid darparu'r cynllun gwella trwy ddefnyddio nifer o adnoddau, yn cynnwys grwpiau cymunedol o wirfoddolwyr lleol a grwpiau'r gwasanaeth prawf, yn ogystal â cholegau hyfforddi amaethyddol. Byddai Dyfrffyrdd Prydain yn darparu'r gwaith cynllunio, yr hyfforddiant ac yn goruchwylio.

Canlyniadau'r prosiect

- Mynediad i Bawb, yn cynnwys creu mynediad i bobl o bob gallu
- 2km o lwybr halio gwell
- Mwy o ymwelwyr
- Llwybr trafnidiaeth cynaliadwy

Partneriaid posib y prosiect

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dyfrffyrdd Prydain
Cyngor Sir Powys
Partneriaeth y Trallwng
Enfys – Cronfa Cyfleoedd Newydd
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Cyllid angenrheidiol

£120,000

Mynediad i Bawb Trefaldwyn

Disgrifiad o'r prosiect

Gwella llwybr halio a phwyntiau mynediad i annog defnydd ehangach o'r gamlas ar gyfer hamdden a mwynhad. Gellid gwella glannau'r gamlas trwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau yn cynnwys grwpiau gwirfoddol a thasglu amgylcheddol y Fargen Newydd. Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn darparu hyfforddiant ac yn goruchwylio'r safle.

Canlyniadau'r prosiect

- Gwella mynediad i bawb ar hyd glannau'r gamlas
- Gwella pwyntiau mynediad i'r ddyfrffordd
- Mwy o ymwelwyr
- Llwybr trafnidiaeth cynaliadwy

Partneriaid posib y prosiect

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dyfrffyrdd Prydain
Cyngor Sir Powys
Enfys – Cronfa Cyfleoedd Newydd
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Cyllid angenrheidiol

£360,000

Llwybr Gwas y Neidr



Disgrifiad o'r prosiect

Bydd y prosiect hwn yn datblygu llwybr o gwmpas tref y Trallwng. Bydd yn darparu atyniad i'r dref a'r gamlas ei hun. Mae'r cynllun eisoes wedi derbyn llawer o gefnogaeth leol ac wedi sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Bydd y gwaith o ddatblygu'r llwybr yn dechrau yng Ngwanwyn 2003.

Bydd y prosiect yn cynnwys y gwelliannau canlynol:

- Adnewyddu loc tref y Trallwng
- Adnewyddu'r llwybr halio i ddarparu llwybr cylch yn cysylltu canol y dref a'r gamlas
- Darparu celf gyhoeddus i hyrwyddo'r llwybr
- Byrddau dehongli a gwybodaeth am dreftadaeth y Dref, byrddau gwybodaeth am y gamlas a'r amgylchedd
- Annog y gymuned leol ac ysgolion lleol i gymryd rhan

Canlyniadau'r prosiect

- Creu swyddi
- 24,000 o ymwelwyr ychwanegol
- 200m o lwybr halio gwell
- Ymwelwyr yn gwario £53,000 ychwanegol

Partneriaid cyllido

Dyfrffyrdd Prydain
Cyngor Sir Powys
Partneriaeth y Trallwng
Awdurdod Datblygu Cymru
Enfys – Cronfa Cyfleoedd Newydd
ERDF Amcan 2
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Cyllid a sicrhawyd

£130,000

Llwybr cerflunwaith



Disgrifiad o'r prosiect

Datblygu prosiect llwybr cerflunwaith tymor hir, a fyddai'n cynnwys gosod gwaith celf cyhoeddus ar thema planhigion ac anifeiliaid sy'n gynhenid i gamlas Trefaldwyn. Bydd artistiaid yn cael eu comisiynu i weithio gydag aelodau o grwpiau cymunedol lleol i ddatblygu themâu a syniadau ar gyfer creu nifer o gerfluniau. Bydd hynodrwydd lleol y mannau hyn yn cael ei adlewyrchu trwy'r themâu a ddewisir a'r defnydd o ddeunyddiau lleol.

Canlyniadau'r prosiect

- Cael cymunedau lleol i gymryd rhan
- Swyddi lleol
- Cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ysgolion lleol a grwpiau cymunedol
- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o blanhigion ac anifeiliaid pwysig ar hyd coridor y gamlas
- Atyniad i dwristiaeth o tu hwnt i'r ardal gyfagos

Partneriaid posib y prosiect

Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Sir Powys
Dyfrffyrdd Prydain
Y gymuned leol
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn

Cyllid angenrheidiol

£100,000

Prosiectau mynediad De Cymru



Disgrifiad o'r prosiect

Rhaglen o brosiectau a gynlluniwyd yn sensitif i arwynebu llwybrau halio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau a grwpiau mynediad trwy gyfres o gynlluniau. Byddant yn darparu arwynebau pob tywydd ac yn nodi pwyntiau mynediad wedi'u lleoli'n strategol lle gellir darparu cyfleusterau parcio i grwpiau anghenion arbennig.

Canlyniadau'r prosiect

- Arolwg o fynediad
- Nodi pwyntiau mynediad mewn lleoliadau strategol a chyfleusterau parcio i grwpiau anghenion arbennig
- Amlygu cysylltiadau â'r rhwydwaith rhanbarthol o hawliau tramwy cyhoeddus
- Darparu arwyneb diogel a chynaliadwy trwy safonau cynllunio newydd
- Diwallu anghenion lleol trwy gysylltu llwybrau diogel i ysgolion
- Creu rhwydwaith o lwybrau yn cysylltu ac yn gwella bywyd y gymuned
- Cyfathrebu diwylliant yr ardal trwy ddehongli ar y safle
- Cyswllt gweledol â hanes y gymuned, sy'n destun cryn falchder yn aml
- Cysylltu llwybrau beicio rhwng amrywiaeth o leoliadau cefn gwlad gyda chysylltiadau tir a dŵr
- Mae llwybrau halio hygyrch yn creu cyfleoedd i ddatblygu ffordd iachach o fyw

Partneriaid

Awdurdodau Lleol
Bwrdd Croeso Cymru
Asiantaethau Cyllido Ewropeaidd
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

£700,000

4.2.3 Yr Amgylchedd

Bioamrywiaeth Camlas Mynwy ac Aberhonddu



Disgrifiad o'r prosiect

Defnyddio arfarniad ecolegol i ddatblygu cynllun gweithredu bioamrywiaeth i sicrhau bod y gamlas yn parhau i gael ei defnyddio fel amwynder hamddena cynaliadwy. Gweithredu mentrau i warchod rhywogaethau arbennig a hyrwyddo arferion ecolegol da. Mae'r gamlas yn cynnwys safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a llawer o gynefinoedd o bwysigrwydd lleol.

Canlyniadau'r prosiect

- Datblygu partneriaethau i lunio cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth i warchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt
- Cefnogi 'Cymuned Betws, Casnewydd' yn eu menter i gyflawni prosiect gwlyptir cynaliadwy mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a Banc Barclays
- Arolwg coed a chynllun rheoli i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu
- Atal lledaeniad rhywogaethau planhigion ymledol
- Creu gwarchodfeydd cadwraeth a diogelu cynefin cramenogion a mamaliaid y dyfrffyrdd
- Cwblhau arfarniad ecolegol penodol o Fourteen Locks a'r Crindai Pil

Partneriaid

Awdurdodau Lleol
Asiantaeth Cyllido Ewropeaidd (Interreg IIc a IIIb)
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Lleol
Gwirfoddolwyr
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

£300,000

Gwarchodfeydd natur bioamrywiaeth Camlas Trefaldwyn



Disgrifiad o'r prosiect

Datblygwyd cynllun rheoli gan ein tîm ecolegol i hyrwyddo arfer gorau mewn perthynas â rheoli a chynnal y gwarchodfeydd natur yn y Wern, Brithdir a Whitehouse ar ran Cymru o Gamlas Trefaldwyn. Rydym yn bwriadu cynnwys grŵp cymunedol lleol o weithwyr dan hyfforddiant neu sefydliadau hyfforddi cydnabyddedig, i fabwysiadu'r gwaith o reoli a chynnal y gwarchodfeydd natur yn effeithiol.

Canlyniadau'r prosiect

- Cael pobl leol i gymryd rhan yn natblygiad y gwarchodfeydd
- Datblygu addysg amgylcheddol i grwpiau cymunedol bach
- Datblygu sgiliau hyfforddi ar reoli amgylcheddol dan oruchwyliaeth a chyfarwyddyd arbenigol
- Trefn gynnal a chadw gynaliadwy, i sicrhau bod y warchodfa'n dod â'r manteision gorau posib

Partneriaid posib

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn
Dyfrffyrdd Prydain
Cyngor Sir Powys
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain
Cyfeillion Camlas Trefaldwyn

Cyllid angenrheidiol

Cost flynyddol o hyd at £15,000 i weithredu trefn reoli ym mhob gwarchodfa natur.

Strategaeth rheoli cadwraeth Camlas Trefaldwyn



Disgrifiad o'r prosiect

Datblygu Strategaeth Rheoli Cadwraeth i ddarparu fframwaith ar gyfer adfer ac adfywio'r gamlas yn gynaliadwy. Bydd y strategaeth yn cwmpasu amgylchedd naturiol ac adeiledig y ddyfrffordd – mae yna lawer o adeiladau rhestredig ar hyd y gamlas sy'n ei gwneud yn adnodd gwerthfawr o ran treftadaeth adeiledig. Agwedd arall ar y strategaeth yw bod cymunedau'n cymryd rhan weithgar yn y gwaith o adfer y gamlas trwy ddigwyddiadau adeiladu cymunedol dan arweiniad rheolwr y prosiect. Mae Camlas Trefaldwyn yn cefnogi rhywogaethau dyfrol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Dynodwyd 42km o'r ddyfrffordd fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar sail cyfoeth ac amrywiaeth ei hecoleg ddyfrol. Y llynedd, dynodwyd rhan Cymru o'r gamlas fel ymgeisydd ar gyfer statws Ardal Gadwraeth Arbennig dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd.

Canlyniadau'r prosiect

- Fframwaith datblygedig ar gyfer gwaith adfer a datblygu'r gamlas yn y dyfodol. Y strategaeth yw'r cam cyntaf o brosiect ehangach i adfer y gamlas. Dyma brosiect enghreifftiol i ddatblygu arfer gorau ar gyfer cynlluniau adfer pellach gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Partneriaid y prosiect

Partneriaeth Camlas Trefaldwyn
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
ERDF Amcan 2
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid a sicrhawyd

£148,000

4.2.4 Twristiaeth ddiwylliannol
Pont Ddŵr Pontcysyllte



Disgrifiad o'r prosiect

Mae Pont Ddŵr Pontcysyllte yn Heneb Restredig Gradd 1 yn sgil ei chyfraniad pwysig i ddatblygiad peirianneg camlesi a'r defnydd o haearn bwrw mewn adeiladwaith. Mae hefyd yn heneb o'r Chwyldro Diwydiannol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae ganddi 19 bwa, sy'n croesi'r Afon Ddyfrdwy ar uchder o 38m (125tr) ac yn 307m (987tr) o hyd.

Dangosodd archwiliad gan Ddyfrffyrdd Prydain fod angen cynllun adnewyddu. Mae angen ailselio'r cafn a gwneud gwaith adfer ar y llwybr halio ar gost o tua £1.4 miliwn. Mae'r gwaith i fod i'w gwblhau ar gyfer y dathliadau deucanmlwyddiant yn 2005.

Gyda chyllid wedi'i sicrhau gan Adfywio ac ERDF Amcan 2, byddwn yn dechrau gweithio yng Ngwanwyn 2003 i wella Basn Trefor, cyrchfan poblogaidd gan ei fod mor agos i'r bont ddŵr. Ar gost o £170,000, bydd y gwaith yn cynnwys gwelliannau mynediad, gwelliannau amgylcheddol, dehongli a gwaith celf cymunedol.

Canlyniadau'r prosiect

- Diogelu dyfodol symbol treftadaeth o Gymru sy'n bwysig dramor
- Mwy o amlygrwydd i Gamlas Llangollen gan hybu twristiaeth
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr a'u gwariant
- Gwell dealltwriaeth o dreftadaeth
- Cysylltiadau pellach yn y gymuned leol

Partneriaid y prosiect

CADW
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Yr Ymddiriedolaeth Ddyfrffyrdd
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

Gwerth y prosiect £1.4 miliwn

Theatr Brycheiniog



Disgrifiad o'r prosiect

Mae Theatr Brycheiniog a'r Basn Angori yn Aberhonddu yn lleoliad delfrydol a thrawiadol ar gyfer y Celfyddydau ac adloniant ar lannau'r gamlas. Mae'n llwyfan i ddramâu, sioeau dawns, cerddoriaeth, iaith, comedi, sioeau plant, arddangosfeydd, gweithdai addysgol a chyfarfodydd.

Canlyniadau'r prosiect

- Y prif gyrchfan ar ben draw Camlas Mynwy ac Aberhonddu (Porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)
- Enghraifft o gynllun partneriaeth lle casglwyd adnoddau ynghyd i sicrhau canlyniad llwyddiannus
- Cynllun aml-bwrpas er mwyn cynnal digwyddiadau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Adloniant byd-eang yn cwmpasu gwahanol arferion a thraddodiadau
- Cartref i grwpiau amatur lleol a rhanbarthol sy'n weithgar yn y celfyddydau perfformio a diddordebau eraill
- Canolbwynt a chyfleuster sy'n dod â gwariant economaidd i'r ardal hon o'r Parc Cenedlaethol
- Mynediad i system feicio genedlaethol Cymru o Gaergybi i Gaerdydd (Lôn Las Cymru) a Llwybr Taf

Partneriaid

Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sir Frycheiniog
Cymunedau lleol
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Loteri'r Celfyddydau
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid a sicrhawyd

£6 miliwn trwy Fenter Datblygu Strategol y Cyngor Sir.
Loteri'r Celfyddydau gyda chefnogaeth Dyfrffyrdd Prydain.

Taith cwch a dynnir gan geffyl



Disgrifiad o'r prosiect

Mae Camlas Trefaldwyn yn bwysig yn ecolegol felly mae Dyfrffyrdd Prydain yn edrych ar nifer o ddulliau gwahanol o yrru cychod ar hyd y gamlas. Cynllun llwyddiannus yw'r cwch a dynnir gan geffyl sy'n gweithredu o Lanfa Llangollen ar Gamlas Llangollen, felly gallem geisio sefydlu'r un math o wasanaeth o dref farchnad y Trallwng. Bydd hyn hefyd yn rhoi profiad unigryw i dwristiaid a phobl sy'n ymweld â'r dref am y dydd.

Canlyniadau'r prosiect

- Gwell ymwybyddiaeth o dreftadaeth y gamlas a'r ardal leol
- Gwasanaeth taith gwch amgylcheddol gynaliadwy
- Grwpiau lleol yn cymryd rhan
- Cefnogaeth busnesau lleol

Partneriaid posib y prosiect

Gweithredwyr y gamlas
Dyfrffyrdd Prydain
Partneriaeth Camlas Trefaldwyn

Cyllid angenrheidiol

Cost o £150,000 i sefydlu'r gwasanaeth cwch a dynnir gan geffyl gyda chost rhedeg o £50,000 y flwyddyn.

Cysylltiadau twristiaeth Trefaldwyn



Disgrifiad o'r prosiect

Mae Camlas Trefaldwyn, Castell Powys a Rheilffordd Stêm Llanfair i gyd o fewn pellter agos i'w gilydd ond yn gweithredu ar wahân ac yn annibynnol. Pe byddai'r tri atyniad lleol yma'n dod ynghyd i hyrwyddo ei gilydd byddai'n arwain at nifer o fanteision.

Canlyniadau'r prosiect

- Gwella mynediad ffisegol rhwng gweithredwyr lleol
- Cynlluniau marchnata ar y cyd
- Hwb i adfywiad economaidd lleol yn sgil mwy o ymwelwyr
- Sefydliadau lleol yn cydweithio i gyflawni nod sydd o fudd iddynt eu hunain a'r gymuned leol
- Mwy o gydnabyddiaeth genedlaethol i atyniadau'r ardal
- Gwell ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol yr ardal

Partneriaid posib y prosiect

Dyfrffyrdd Prydain
Castell Powys
Rheilffordd Stêm Llanfair
Bwrdd Croeso Cymru
Partneriaeth y Trallwng
Cyngor Sir Powys
Twristiaeth Canolbarth Cymru
Atyniadau a gweithredwyr twristiaeth lleol eraill

Cyllid angenrheidiol

£120,000

4.2.5 Dysgu Gydol Oes
Cysylltiadau ysgolion yn y Trallwng

Disgrifiad o'r prosiect

Mae grwpiau o ysgolion lleol, twristiaid, a grwpiau eraill â diddordeb yn ymweld yn gyson ag Amgueddfa Powysland. Mae yna gyfle i greu pecyn addysg i ddatblygu cysylltiadau rhwng yr amgueddfa ac ysgolion lleol a'r atyniadau treftadaeth, amgylcheddol ac ymwelwyr hyn.

Canlyniadau'r prosiect

- Cysylltiadau pellach â'r gymuned leol
- Cefnogaeth i brosiectau cwricwlwm cenedlaethol ysgolion yn seiliedig ar faterion amgylcheddol neu dreftadaeth
- Cynhyrchu pecyn addysg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cynyddu amlygrwydd Camlas Trefaldwyn dros ardal ehangach

Partneriaid posib y prosiect

Cyngor Sir Powys
Dyfrffyrdd Prydain
Amgueddfa Powysland
Ysgolion lleol
Cyfeillion Camlas Trefaldwyn

Cyllid angenrheidiol

£30,000

Sgiliau treftadaeth

Disgrifiad o'r prosiect

Gweithredu cynllun hyfforddi yn cynnwys staff Dyfrffyrdd Prydain a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a cholegau neu gynlluniau hyfforddi, i ddarparu rhaglen o waith adnewyddu yn gysylltiedig â gwaith coed a sgiliau treftadaeth eraill.

Canlyniadau'r prosiect

- Darparu ardal weithdy ddiogel
- Datblygu sgiliau treftadaeth
- Profiad ymarferol i weithwyr dan hyfforddiant dan oruchwyliaeth arbenigwyr
- Y gymuned leol yn cyfrannu at adferiad parhaus camlas Trefaldwyn

Partneriaid posib

Dyfrffyrdd Prydain
Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffordd Trefaldwyn
Shropshire Union Canal Society
Cyngor Sir Powys
Y Fargen Newydd
Yr Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd

Cyllid angenrheidiol

£50,000 y flwyddyn

Addysg gymunedol



Disgrifiad o'r prosiect

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn datblygu mentrau addysg wedi'u cyllido ar y cyd gyda'r awdurdodau lleol i weithredu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ddyfrffyrdd, gyda thema leol a thraws-genedlaethol. Bydd y modd y bydd myfyrwyr o bob oed yn amgyffred ac yn deall y byd naturiol a diwylliannol yn sgil y prosiect hwn yn dylanwadu ar genhedlaeth newydd o rai a fydd yn dal yr awenau.

Canlyniadau'r prosiect

- Bydd myfyrwyr yn cael eu hannog i ymweld â chefn gwlad i ddeall sut gall prosesau naturiol a gweithgareddau dynol effeithio ar yr amgylchedd ac ansawdd bywyd yn y dyfodol, a'u bygwth
- Mae'r amgylchedd dŵr yng Nglanfa Goetre yn darparu ystafelloedd dosbarth dan do ac awyr agored ar gyfer astudiaethau addysgol, hamdden ac ymchwil sy'n gysylltiedig â gorffennol diwydiannol y Cwm
- Trwy bartneriaeth â swyddogion gwasanaethau addysg ac asiantaethau eraill rydym yn annog y defnydd o themâu dyfrffyrdd mewn ysgolion ac yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i gyflwyno pynciau trwy raglen CD ROM newydd ac i ddysgu sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a datblygiad personol
- Mae profiad y dyfrffyrdd yn galluogi'r rhai ag anawsterau dysgu i fwynhau a datblygu trwy gael mynediad i amgylchedd diwylliannol

Partneriaid

Awdurdodau Lleol
Bwrdd Croeso Cymru
Asiantaethau Cyllido Ewropeaidd
Gwirfoddolwyr
Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni
Dyfrffyrdd Prydain
Menter Coedwigaeth

Cyllid angenrheidiol

£300,000

Hyfforddiant cymunedol



Disgrifiad o'r prosiect

Menter wedi'i chyllido ar y cyd yng Nglanfa Goetre, i gefnogi Cynllun Hyfforddi Bargen Newydd y Llywodraeth. Mae'n rhoi profiad ymarferol o waith coed, metel, bric a charreg sy'n ofynnol yn y diwydiannau peirianneg ac adeiladu, tra'n adnewyddu lociau rhwng Casnewydd a Chwmbran sydd wedi dadfeilio.

Canlyniadau'r prosiect

- Rydym yn darparu sgiliau a gwybodaeth gadarnhaol i bobl o bob oed trwy Gynllun Hyfforddi'r Fargen Newydd i wella eu rhagolygon am waith tra'n adnewyddu treftadaeth y dyfrffyrdd
- Rydym yn rhoi cyfle i aelodau o'r gymuned sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol i brofi gweithgareddau gwledig ac yn annog pobl i barchu'r amgylchedd yn hytrach nag ymddwyn yn dramgwyddus neu'n wrth-gymdeithasol
- Mae profiad y dyfrffyrdd yn galluogi'r rhai ag anawsterau dysgu i fwynhau eu hunain a datblygu trwy gael mynediad i brofiadau newydd o fewn amgylchedd y ddyfrffordd a chynlluniau adnewyddu
- Rydym yn hyrwyddo gweithgareddau dysgu o fewn coridor y ddyfrffordd i ddod â thrigolion y gymuned, yn cynnwys y rhai o grwpiau lleiafrifol, ethnig ac o bob oed at ei gilydd i fwynhau a rhannu profiadau gan wneud dyfrffyrdd lleol yn ganolbwynt balchder y gymuned

Partneriaid

Awdurdodau Lleol
Asiantaethau Cyllido Ewropeaidd
Bwrdd Hyfforddi Bargen Newydd y Llywodraeth
Dyfrffyrdd Prydain

Cyllid angenrheidiol

£500,000

Er mwyn datblygu dyfrffyrdd Cymru mewn modd cynaliadwy, rhaid i sefydliadau yng Nghymru ddatblygu cysylltiadau gwaith effeithiol gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Trwy weithio mewn partneriaeth, gallwn ymateb i anghenion cymunedau lleol i gynorthwyo i ddarparu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r ardal ehangach. Gwireddir y buddiannau hyn trwy ddwyn ynghyd ystod amrywiol o gyllid gan bartneriaethau a chan ffynonellau allanol. Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain hanes o sicrhau cyllid gan ffynonellau yng Nghymru, yn genedlaethol yn y DU neu yn Ewrop. Mae enghreifftiau yn cynnwys:-

Adfywio

Adfywio Basn Trefor, Camlas Llangollen.

Dyfrffyrdd Prydain

Defnyddio ein cronfeydd i ddatblygu angorfeydd a chyfleusterau eraill i gychwyr.

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Elusennol

Ymddiriedolaeth Manifold – cyfraniad tuag at adnewyddu Loc Newhouse ar Gamlas Trefaldwyn.

Yr Ymddiriedolaeth Ddyfrffyrdd

Dehongliad ym Masn Trefor, Camlas Llangollen.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Gwella mynediad o amgylch Pont Ddŵr Pontcysyllte, Camlas Llangollen.

Enfys (Cronfa Cyfleoedd Newydd)

Datblygiad Taith Gwas y Neidr – taith gylch ar gyfer cymuned leol y Trallwng.

Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop

Gwelliannau i lwybrau halio, Camlas Mynwy ac Aberhonddu.

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Datblygiad Strategaeth Rheoli Cadwraeth, Camlas Trefaldwyn – i arwain gwaith adfer cynaliadwy a rheolaeth barhaus o'r ddyfrffordd hon sydd â phwysigrwydd ecolegol.

Interreg IIC

Prosiect ar y cyd i adnewyddu a datblygu Camlas Mynwy ac Aberhonddu a Chamlas Trefaldwyn, ar y cyd â phartneriaid yn Iwerddon, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd.

Cynllun Credyd Treth Tirlenwi

Adnewyddu Lociau Tamplin, Casnewydd.

Cyllid awdurdod lleol

Cyngor Sir Mynwy – rhoi wyneb newydd ar y llwybr halio yn Llan-ffwyst ger y Fenni.

Y Fargen Newydd

Datblygu sgiliau treftadaeth – adeiladu llifddorau yn ardal Casnewydd.

Cronfeydd Buddsoddi Preifat

Cegin Cymru, Glanfa Goetre – tŵbwyta sy'n arbenigo mewn bwyd Cymreig.

Cyfraniadau'r Sector Gwirfoddol

Adnewyddu Loc Burgedin, Camlas Trefaldwyn – cyllid a gwaith llafur gwirfoddol gan y Shropshire Union Canal Society.

Bwrdd Croeso Cymru

Mynediad i bobl ag anableddau yn Nhal-y-bont ar Wysg.

Awdurdod Datblygu Cymru

Datblygu basn angori newydd i ymwelwyr yn Llangollen

Fodd bynnag, mae'r farchnad gyffredinol am gyllid yn mynd yn fwyfwy cystadleuol. I godi arian yn llwyddiannus, mae angen cynllun clir a chamau gweithredu wedi'u targedu sydd â'r nod o ddangos yn glir bod yr amcanion a nodwyd gan y cyllidwyr arfaethedig wedi eu cyflawni.

I sicrhau bod buddiannau posib dyfrffyrdd Cymru yn cael eu gwireddu mewn modd effeithiol ac effeithlon, rhaid rhoi cynlluniau clir â chanlyniadau mesuradwy ar waith i wireddu gweledigaeth a ddatblygwyd yng Nghymru. I'r perwyl hwn, gofynnir am sylwadau ar y ddogfen gyfan. Byddem yn croesawu'n arbennig atebion i'r cwestiynau isod. Byddai'n gynorthwyol pe baech yn nodi'ch rhesymau dros eich safbwyntiau.

1. Ai'r dull strategol a amlinellir yn y ddogfen yw'r un cywir? Yn arbennig:
   a. A yw'r prosiectau cywir i gyd wedi eu cynnwys? Os nad ydynt, pa brosiectau eraill ddylid eu hystyried?
   b. Beth yw'r amserlen fwyaf priodol ar gyfer gweithredu'r prosiectau?

2. Sut gellid estyn cwmpas y ddogfen ei hun? Er enghraifft
   a. Pa ddyfrffyrdd a dyfrfannau eraill ddylid eu cynnwys?
   b. Pa gynlluniau neu brosiectau eraill ddylid eu cynnwys?

3. Sut dylem ni flaenoriaethu camau gweithredu rhwng themâu (adfywio economaidd, adfer cefn gwlad, byw'n gynaliadwy, bywiogrwydd diwylliannol, Cymru yn y byd ehangach) a rhwng prosiectau?

4. I gael y budd mwyaf posib o'n gwaith, rhaid i ni sicrhau rhyngweithio rhwng ein gweledigaeth a'r cynllun hwn â chynlluniau a rhaglenni eraill.
   a. Pa gynlluniau a rhaglenni gan sefydliadau eraill ddylid eu hystyried?
   b. A fyddai grŵp gwaith sy'n cynnwys y prif awdurdodau mordwyo, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, awdurdodau lleol a chynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fodd effeithiol o roi ffocws i fwy o weithgarwch?
   c. Beth fyddai'r strwythur a'r dull o weithio mwyaf priodol ar gyfer y grŵp hwn?
   d. Pa sefydliadau, strwythurau a mecanweithiau ddylai'r grŵp ymwneud â nhw?

Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn cynhyrchu adroddiad ar yr ymgynghoriad gydag argymhellion o gamau gweithredu i'r dyfodol, ac yna'n adrodd ei ganfyddiadau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

Amserlen

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener 20 Mehefin 2003.

Mae'r manylion cyswllt yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad neu'r wefan isod yn nodi sut y gallwch ddychwelyd eich sylwadau:

www.britishwaterways.co.uk/Cymru

7.1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7.1.1 Cynllun i Gymru a Dysgu Byw'n Wahanol

Gall prosiectau dyfrffyrdd gynorthwyo i gyflawni'r ymrwymiadau canlynol sydd wedi eu cynnwys yn y *Cynllun i Gymru*[1].

- Economi Modern
  - Cynorthwyo cymunedau i gynorthwyo'u hunain[2]
    - Cynllun adfer Clwy'r Traed a'r Genau
  - Gosod cyfeiriad newydd sbon[3]
    - Gwneud y defnydd gorau o amgylchedd naturiol Cymru o ran datblygu cynaliadwy[4]
  - Cymru a'r byd[5]
    - Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol a datblygu twristiaeth yng Nghymru ymhellach
    - Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ddaw yn sgil cynnal y Cwpan Ryder yng Nghymru yn 2010
- Lle rydym yn byw[6]
  - Gwella'n hamgylchedd
    - Gwella bioamrywiaeth
    - Gwella mynediad y cyhoedd…sicrhau'r buddiannau gorau posib i'r gymuned
    - Cefnogi prosiectau datblygu cynaliadwy gyda'r Parciau Cenedlaethol
  - Diogelu ein hamgylchedd hanesyddol
    - Codi ymwybyddiaeth am y dirwedd hanesyddol
    - Gwarchod safleoedd pwysig
    - Cadwraeth henebion, safleoedd ac adeiladau hanesyddol trwy gymorth grant
    - Cadwraeth henebion sydd dan ofal y wladwriaeth a'u cyflwyno i'r cyhoedd
- Cefnogi Cefn Gwlad Cymru[7]
  - Datblygygu gwledig
    - Datblygu incwm a swyddi mewn sectorau heblaw am amaethyddiaeth, drwy'r Cynllun Datblygu Cefn Gwlad a'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
    - Cynorthwyo swyddfeydd post, siopau a busnesau bach eraill cefn gwlad
    - Hyrwyddo adfywio cymunedol a datblygu gallu mewn ardaloedd gwledig
  - Cynorthwyo'r economi sy'n seiliedig ar y tir
    - Gweithio gyda phartneriaid i amrywio'r sail economaidd drwy gronfeydd y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, yr UE a chronfeydd eraill

7.1.2 Cymru ar ei Hennill

Bydd y cynllun hwn yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r targedau dethol isod yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol – *Cymru ar ei Hennill*.

- Cefnogi busnes[8]
  - Sicrhau'r defnydd gorau posib o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd
- Gosod cyfeiriad newydd sbon[9]
  - Gwella atyniad cefn gwlad Cymru
- Sefydlu Cymru yn y Byd[10]
  - Gweithredu Strategaeth Dwristiaeth Bwrdd Croeso Cymru – Gwireddu ein Potensial
- Creu Cymunedau Cryf[11]
  - Sicrhau bod cronfeydd adfywio yn cael eu defnyddio i'r eithaf
  - Ystyried ehangu ein fframweithiau adfywio is-ranbarthol
- Cefnogi Cefn Gwlad Cymru[12]
  - Gweithredu'r Cynllun Datblygu Cefn Gwlad
  - Cynyddu pwyslais ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol
- Gweithredu'r Cynllun Datblygu Cefn Gwlad[13]

7.1.3 Cynllun Datblygu Cefn Gwlad

Gall dyfrffyrdd gynorthwyo gyda'r blaenoriaethau allweddol canlynol yn y Cynllun Datblygu Cefn Gwlad.[14]

- Blaenoriaeth 1 – Creu sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth cryfach
  - Arallgyfeirio i ddarparu gweithgareddau lluosog neu incymau amgen
    - Annog gweithgareddau twristiaeth a chrefft
- Blaenoriaeth 2 – Gwella gallu cymunedau ac ardaloedd gwledig i gystadlu'n economaidd
- Blaenoriaeth 3 – Cynnal a gwarchod yr amgylchedd a threftadaeth wledig[15]
  - Cynorthwyo i wneud defnydd mwy cynaliadwy o dir
  - Gwella mynediad i wasanaethau, cefnogi adfywio cymunedol a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol[16]

7.1.4 Dyfodol Creadigol

- *Cynllun Gweithredu Blaenoriaeth 4 – Diwylliant a Chymunedau*[17]
  - Rôl hanfodol Awdurdodau Lleol
  - Dylai cynlluniau adfywio cymunedol gynnwys amcanion diwylliannol
- *Cynllun Gweithredu Blaenoriaeth 6 – Diwylliant a'r Economi*[18]
  - Gall diwylliant fod yn sbardun i ffyniant economaidd
  - Twristiaeth Ddiwylliannol – mae hanes, diwylliant iaith a ffordd o fyw yn gaffaeliadau pendant
  - Treftadaeth wledig a diwydiannol yn gymorth i werthu Cymru
  - Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol y Bwrdd Croeso[19]
    - Gwella mynediad
    - Ychwanegu gwerth at brofiad ymwelwyr

1 Gweler Adran 3 yn gyffredinol
2 Ibid ac Adrannau 4.2.1, 4.2.4
3 Ibid
4 Ibid ac Adran 4.2.3
5 Gweler Adrannau 3.2, 3.3, 3.4.2, 4.2.4
6 Gweler Adrannau 3, 4.2.2, 4.2.3
7 Ibid ac Adran 4.2
8 Gweler Adran 3
9 Ibid ac Adran 4.2
10 Gweler Adran 3.2 yn benodol
11 Gweler Adran 3 ac Adran 4.2.1 yn benodol
12 Ibid ac Adran 4.2
13 Ibid
14 Ibid
15 Gweler Adran 4.2.3 yn benodol
16 Gweler Adrannau 4.2.1, 4.2.2, 4.2.5 yn benodol
17 Gweler Adrannau 3 a 4.2.1
18 Gweler Adran 3 ac Adran 4.2.4 yn benodol
19 Gweler Adran 2.2.1

- Datblygu cynnyrch
- Ymchwilio a datblygu marchnadoedd arbenigol

7.2 Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

7.2.1 Bwrdd Croeso Cymru

Gall dyfrffyrdd gynorthwyo i ddiwallu amcanion canlynol strategaeth *Gwireddu ein Potensial* Bwrdd Croeso Cymru a'r *Cynllun Adfywio* i adfer cefn gwlad ar gyfer twristiaeth.[20]

- Amcan 1 – Marchnata Cymru yn fwy effeithiol fel atyniad i dwristiaid drwy gydol y flwyddyn
- Amcan 2 – Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau ymwelwyr â Chymru trwy ddarparu safonau uchel a sicrhau bod buddsoddiad mewn twristiaeth yn ymateb i'w hanghenion newidiol
- Amcan 4 – Mabwysiadu dull cynaliadwy o ddatblygu twristiaeth sydd o fudd i gymdeithas, sy'n cynnwys cymunedau lleol ac yn ychwanegu at gaffaeliadau amgylcheddol a diwylliannol unigryw Cymru

Fel caffaeliadau diwylliannol, gall dyfrffyrdd gyfrannu at gyflawni amcanion Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol y Bwrdd Croeso i: wella mynediad i ddiwylliant,[21] ychwanegu gwerth at brofiad ymwelwyr, datblygu twristiaeth ddiwylliannol trwy ddatblygu'r farchnad arbenigol o ddyfrffyrdd.[22]

7.2.2 Awdurdod Datblygu Cymru

Gall dyfrffyrdd fod o gymorth arbennig i strategaeth datblygu cynaliadwy y ADC yn y meysydd canlynol.

- Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy[23]
  - Defnydd o gynhyrchion/gwasanaethau Cymreig
  - Hygyrchedd[24]
  - Gwell bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi
  - Ailddefnyddio safleoedd tir llwyd a hen adeiladau
  - Dylunio arfer gorau ar gyfer bioamrywiaeth a'r dirwedd[25]
- Rheoli'r Amgylchedd ac adnoddau
  - Lleihau effeithiau aflesol
  - Creu manteision lle bynnag y bo'n bosib

O ran Cynllun Corfforaethol y ADC, gall dyfrffyrdd gyfrannu at:

- Gefnogi'r Economi Gwledig[26]
  - Arallgyfeirio ar ffermydd
  - Rheoli amgylcheddol
  - Twristiaeth
  - Micro-fusnesau
- Cefnogaeth i gymunedau cystadleuol[27]
  - Partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i weithredu cynlluniau adfywio cymunedol cyfannol
- Mentrau Trefi Marchnad a Threfi Bach a Phentrefi[28]

7.2.3 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Gall dyfrffyrdd gynorthwyo i wireddu'r amcanion strategol canlynol a nodir yn *Gwell Cymru – Amgylchedd Naturiol Cymru yn 2010*.[29]

- Cymru sy'n fwy unigryw o ran cymeriad ei thirwedd ac sy'n cynnwys mwy o fioamrywiaeth
  - Gwlyptiroedd estynedig
  - Ffermio cynaliadwy
  - Mwy o warchodfeydd natur a mannau gwyrdd
  - Adleoli rhywogaethau ymledol lle maent yn peryglu cynefinoedd naturiol ac yn amharu ar gymeriad a harddwch
  - Adfer gwrychoedd a'u rheoli'n well gan ychwanegu at werth tirwedd
- Bod y tir a'r môr yn cynnal mwy o fywyd gwyllt a'u cynefinoedd[30]
  - Gwella goroesiad rhywogaethau sydd dan fygythiad, gan gynnwys
    - Llygoden bengron y dŵr
    - Dŵr-lyriad nofiadwy (Mae Dyfrffyrdd Prydain yn bartner blaen ar gyfer y rhywogaeth hon)
  - Gwarchodfeydd natur lleol
- Gwaith adfer i leihau'r tebygolrwydd o gynefinoedd yn dirywio
  - Bydd datblygiadau'n cael eu cyflawni mewn modd sy'n cael cyn lleied â phosib o effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau ac yn sicrhau'r cyfleoedd gorau posib iddynt
- Bod datblygiad economaidd yn parchu'r amgylchedd naturiol gan gynnwys ei elfennau diwylliannol a hanesyddol
  - Gwell dealltwriaeth o'r rhyng-gysylltiadau rhwng yr amgylchedd, yr economi ac amcanion cymdeithasol
  - Cryfhau twristiaeth gyda hawliau mynediad statudol[31]
    - Agor Ffordd Glyndŵr
    - Datblygu potensial twristiaeth gwarchodfeydd natur a llwybrau cerdded
    - Datblygu eco-dwristiaeth
- Cymru lle mae mynediad gwell i gefn gwlad a'r arfordir i'w phobl i gyd a'i hymwelwyr, gan roi mwynhad a bodlonrwydd.[32]
  - Gweithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
  - Prosiectau Mynediad i Bawb
  - Mwy o lecynnau gwyrdd a gwarchodfeydd natur mewn trefi

20 Gweler Adrannau 3 a 4 yn gyffredinol
21 Gweler Adrannau 4.2.1, 4.2.2, 4.2.4
22 Ibid
23 Gweler Adran 4.2.1 yn gyffredinol
24 Gweler Adran 4.2.2 yn benodol
25 Gweler Adran 4.2.3 yn benodol
26 Gweler Adrannau 3, 4.2.1, 4.2.2, 4.2.3, 4.2.4
27 Gweler Adrannau 3.3 a 4.2.1
28 Gweler Adrannau 3.4 a 4 yn gyffredinol
29 Nodwedd o'r holl waith a gweler Adran 4.2.3
30 Ibid ac fel y disgrifir ymhellach yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Cyngor Cefn Gwlad Cymru
31 Gweler Adrannau 4.2.2, 4.2.3, 4.2.4 yn benodol
32 Gweler Adran 4.2.2 yn benodol

Crynodeb o'r Sefydliadau

Mae **Dyfrffyrdd Prydain** yn rheoli ac yn gofalu am rwydwaith 2000-milltir o gamlesi ac afonydd mordwyol ledled Cymru, yr Alban a Lloegr. Mae'n gweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wella ansawdd bywyd trwy ddarparu buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Gwaith **CADW** yw amddiffyn a chadw treftadaeth adeiledig Cymru a hyrwyddo gwerthfawrogiad ohoni. Mae CADW yn gyfrifol am gadwraeth, cyflwyniad a hyrwyddo treftadaeth adeiledig Cymru. Mae'n sicrhau cadwraeth henebion ac adeiladau hanesyddol, yn rhoi cymorth grant i atgyweirio henebion ac adeiladau hanesyddol ac yn rheoli 129 o henebion yng Nghymru sydd dan ofal uniongyrchol y Wladwriaeth.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau cefn gwlad Cymru a dyfroedd ei glannau.

Mae **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** yn rhan o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Lloegr. Mae ganddi gyfrifoldebau statudol pwysig dros reoleiddio, monitro a rheoli amgylcheddau tir, dŵr ac aer a'r prosesau sy'n effeithio arnynt. Mae ei phrif swyddogaethau yn cynnwys atal a rheoli llygredd yn integredig, rheoleiddio gwastraff, amddiffyn rhag llifogydd, adnoddau dŵr, pysgodfeydd, hamdden, cadwraeth a mordwyo.

Nod **Bwrdd Croeso Cymru** yw annog ymwelwyr i ddod i Gymru ac i hybu'r gwaith o ddarparu a gwella cyfleusterau a mwynderau i dwristiaid.

Swyddogaeth **Awdurdod Datblygu Cymru** yw darparu atebion i gwmnïau yng Nghymru fel y gallant wella eu gallu i gystadlu gyda thechnoleg ac arloesedd gwell gan greu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth.

AMLINELLIAD O'R DREFN ADFER

Prosiect		Amser cyflawni			
Eitem		2002	2003-2005	2005 +	**Parhau**
Adfer Camlas Trefaldwyn					
Strategaeth Rheoli Cadwraeth	Paratoi	✓	✓		
	Gweithredu	✓	✓	✓	✓
	Asesiadau o Effaith ar yr Amgylchedd	✓	✓	✓	✓
Creu/rheoli gwarchodfeydd natur newydd	Guilsfield		✓		✓
	Eraill			✓	✓
Cyflwyno a gweithredu cyfleusterau hamdden newydd	Burgedin			✓	✓
	Maesbury		✓		✓
	Llanymynech			✓	✓
	Y Trallwng		✓		✓
Gwaith peirianneg	Swydd Amwythig Cam 3a	✓			
	Swydd Amwythig Cam 3b-4a		✓		
	Swydd Amwythig Cam 4b-5b			✓	
	Powys - Arddleen		✓		
	Powys - Croesfan Maerdy Sianeli, Fyrnwy, Pontydd Dŵr Llifogydd a'r Wern, Waliau'r Bont a Ffos Gyflenwi Tannat			✓	
Adfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu					
Asesiadau o Effaith ar yr Amgylchedd		✓	✓	✓	✓
Cam 1	Casnewydd i Dŷ Coch	✓	✓		
Cam 2	Marina Crindai Pil			✓	
Cam 3	Adfer o Tŷ Coch i		✓	✓	
	Five Locks Cwmbran				
Cam 4	Pont Ddŵr Cwmbran			✓	
Cam 5	Cangen Crymlyn		✓	✓	
Marchnata		✓	✓	✓	✓
Monitro		✓	✓	✓	✓

Ardal Rhaglen Amcan Un 2000-2006



© 'Hawlfraint y Goron 2000

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardaloedd Rhaglen Amcan Dau 2000-2006 ac Ardaloedd Rhaglen Drosiannol



CartoGraphics, Adran Gynllunio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

© 'Hawlfraint y Goron 2000

Am ragor o wybodaeth:

Canolbarth a Gogledd Cymru
Bwthyn Loc Burgedin, Arddleen
Llanymynech, Powys, SY22 6RU
Ffôn 01938 590079
Ffacs 01938 590081

De Cymru
Y Lanfa, Gofilon, Y Fenni,
Mynwy, NP7 9NY
Ffôn 01873 830328
Ffacs 01873 831788